Prentisiaethau

# Pecyn Anwytho

EICH PRENTISIAETH GYDAG URDD GOBAITH CYMRU

Adran Prentisiaethau 24-25
URDD GOBAITH CYMRU

## Cynnwys

Eich Prentisiaeth ..... 2
Sut mae'r brentisiaeth yn cael ei rhedeg? ..... 2
Polisïau'r Urdd ..... 3
Angen cymorth? ..... 4
Eich Lles ..... 4
Eich Anwythiad ..... 5
Rhestr Wirio Anwytho ..... 8

# Eich Prentisiaeth

Croeso i'ch prentisiaeth gydag Urdd Gobaith Cymru!

Mae'r Urdd wedi bod yn darparu prentisiaethau ers 2014, ac rydym yn falch o'ch croesawu chi fel prentis yn ystod ein pen-blwydd 10 oed.

Defnyddiwch y pecyn hwn drwy gydol eich prentisiaeth, a'i gadw'n saff er mwyn gallu cyfeirio yn ôl ati.

## Sut mae'r brentisiaeth yn cael ei rhedeg?

Mae pob prentisiaeth yn bartneriaeth gytbwys rhyngoch chi fel prentis, eich cyflogwr, a'r darparwr hyfforddiant, sef yr Urdd.

Er mwyn i brentisiaeth fod yn llwyddiannus, mae angen i'r tri pharti fod yn rhan o'r daith.




### Disgwyliadau ohonoch chi:

- Cyfathrebu yn aml gyda'ch asesydd
- Cadw at ddyddiadau cau a chyfarfodydd a threfnwyd, cyfathrebu unrhyw newidiadau gyda'ch asesydd neu diwtor
- Cymryd cyfrifoldeb o'ch rhaglen dysgu, a sicrhau eich bod yn mewngofnodi i'ch e-portffolio yn rheolaidd
- Diweddaru eich asesydd am unrhyw newidiadau i'ch sefyllfa
- Cyfarfod gyda'ch asesydd o leiaf unwaith y mis, naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb
- Gweithredu o fewn polisïau'r Urdd (gweler manylion isod)
- Trin staff yr Urdd a'ch cyd brentisiaid gyda pharch

### Disgwyliadau o'ch cyflogwr:

- Cyfathrebu yn aml gyda'r Urdd
- Bod yn ymwybodol o ddyddiadau cau a chyfarfodydd y prentis er mwyn rhoi cymorth iddynt yn ôl y gofyn

● Annog y prentis i gymryd cyfrifoldeb ac ymrwymo i'w rhaglen dysgu

● Sicrhau eich bod yn mewngofnodi i e-bortffolio y prentis yn rheolaidd er mwyn cadw'n gyfredol ynglŷn â'u cynnydd

● Cadw'r Urdd yn ddiweddar o unrhyw newidiadau priodol i'r gweithle

● Mynychu adolygiad gyda'r prentis a'r asesydd, o leiaf pob tri mis

● Gweithredu o fewn polisïau'r Urdd (gweler manylion isod)

● Trin staff yr Urdd a'ch prentis gyda pharch

### Disgwyliadau gan yr Urdd:

● Teilwra rhaglen i'ch anghenion a'ch arddull dysgu chi

● Cyfarfod (adolygiad) misol gyda'ch asesydd

● Ymateb neu roi adborth ynglŷn â gwaith a chyflwynir, o fewn 14 diwrnod

● Mynediad at adnoddau a hyfforddiant o ansawdd uchel gan arbenigwyr yn y maes

● Cael eich trin gyda pharch a thegwch ar bob amser

● Awyrgylch saff, croesawgar a chefnogol

● Cyfathrebiad aml mewn modd sy'n gweithio i chi.

## Polisïau'r Urdd

Disgwyliem i bawb weithredu o fewn y polisïau isod, gan gynnwys staff yr Adran Prentisiaethau:

- **Polisi a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Urdd Gobaith Cymru.pdf**
- **Polisi Diogelu Dysgwyr dros 18 oed ac Oedolion Agored i Niwed.pdf**
- **Polisi Apêl yn erbyn penderfyniad asesu.pdf**
- **Polisi Camymddwyn Proffesiynol a Chamweinyddu Adran Prentisiaethau.pdf**
- **Polisi Cwynion ac adrodd ar bryderon.pdf**
- **Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.pdf**
- **Polisi Ystyriaeth Arbennig.pdf**

Gall staff yr Urdd eich helpu i ddeall neu weithredu unrhyw bolisi a restrwyd uchod, gan gynnwys gwneud cwyn.

## Angen cymorth?

| Cyswllt | Pwy? | Sut? |
|---|---|---|
| Diogelu a Lles | Catrin Davis (Pennaeth Prentisiaeth) | 07966 403394 / 07930 964625 catrindavis@urdd.org |
| Ansawdd | Ffion Evans | 07500 607382 ffionevans@urdd.org |
| Cofrestru | Elen Lewis | 07929 717013 elenlewis@urdd.org |
| Help gyda'ch e-bortffolio | Eich Asesydd | Os nad ydych yn siŵr, defnyddiwch prentisiaeth@urdd.org |
| Lles | | llesprentis@urdd.org |

Cysylltiadau Pellach:

Cysylltu â ni | Urdd Gobaith Cymru

## Eich Lles

Gall unrhyw aelod o staff yr Adran Prentisiaethau roi cymorth i chi gyda'ch lles. Hyfforddir pob aelod o staff fel Swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl.

Bydd eich asesydd yn gallu eich cyfeirio at gymorth neu eich cysylltu gyda rhywun all helpu.

Os nad ydych yn siŵr ble i droi, gallwch gysylltu gyda llesprentis@urdd.org fel man cychwyn.

### Apiau neu sefydliadau yr ydym yn eu hawgrymu:

Together All - Ap ble gallwch drafod amryw o faterion a derbyn cymorth gan eich cyfoedion, yn ddienw ac mewn modd diogel. Bydd angen creu cyfrif, a dewiswch yr opsiynau isod wrth wneud.

https://togetherall.com/en-gb/



Iechyd Meddwl:

Mind Cymru - mental health support for Wales - Mind

Hafan - Hafan - Meic (meiccymru.org)

https://wellbeing.acttraining.org.uk/mental-health-and-wellbeing-support-library/mental-health

Charlie Waller Trust, mental health charity

Bywyd ACTif - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)

Argyfwng Iechyd Meddwl:

Samaritans | Every life lost to suicide is a tragedy | Here to listen

Papyrus UK Suicide Prevention | Prevention of Young Suicide (papyrus-uk.org)

Chwilio am Adnoddau Pellach:

dewis.wales

# Eich Anwythiad

### Asesiadau WEST (Wales Essential Skills Toolkit)

Mae angen i bob prentis cwblhau asesiadau WEST. Mae 4 pwnc, a bydd staff yr adran yn rhoi gwybod i chi pa rai sydd angen i chi gwblhau.

Pynciau:

Cyfathrebu (Cymraeg)
Cyfathrebu (Saesneg)
Rhifedd
Llythrennedd Digidol

Dylai aelod o'r tîm fod wedi cadarnhau dyddiad ac amser gyda chi er mwyn cwblhau'r asesiadau hyn. Os nad ydych, rhowch wybod i'ch asesydd.

**Nid oes angen poeni ynglŷn â'r asesiadau hyn, ac nid oes yna ffordd i'w methu. Mae'r wybodaeth o'r asesiadau yn gyfrinachol i chi a staff yr Adran Prentisiaethau, ac yn cael eu defnyddio i roi'r cymorth addas i chi.**

### Prentis-laith

Mae pob prentis yn ymgymryd ag unedau Prentis-laith. Pwrpas yr unedau yw eich helpu i barhau i ddatblygu eich sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg.

Bydd eich asesydd yn gosod y cwrs mwyaf addas i chi, a bydd hwn ar gael yn eich e-bortffolio os ydych yn defnyddio OneFile, neu bydd linc yn dod atoch os ydych yn defnyddio Smart Assessor.

Disgwyliem i chi weithio drwy'r cwrs hwn, drwy gydol eich prentisiaeth.

## Diogelu

O fewn 8 wythnos o gychwyn, bydd angen i chi gwblhau Cwrs Diogelu. Mae'r cwrs yn cael ei ddarparu gan un o'n partneriaid, sef Plant yng Nghymru. Bydd eich asesydd yn eich helpu i archebu eich lle ar y cwrs hwn.

## Prevent

Mae angen i bob prentis gwblhau hyfforddiant PREVENT yn ystod 6 wythnos gyntaf eu prentisiaeth. Mae hwn yn estyniad o hyfforddiant diogelu ac yn canolbwyntio ar eithafiaeth a radicaliaeth. Wedi i chi gwblhau'r cwrs, **cofiwch** arbed eich tystysgrif a bydd eich asesydd yn cynnal sgwrs bellach gyda chi ynglŷn â'r pwnc.

Os oes gennych unrhyw ofidion ynglŷn ag eithafiaeth neu radicaliaeth, cysylltwch gyda'r Pennaeth Prentisiaethau (manylion uchod) neu gyda 101 er mwyn ei adrodd at yr heddlu.

https://www.support-people-susceptible-to-radicalisation.service.gov.uk/portal

Bydd angen i chi ddilyn y ddolen uchod a chwblhau "Course 1 – Awareness"

## Llên-ladrad ac AI

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gyfarwydd gyda gofynion Llên-ladrad ac A.I. yr Urdd. Mae angen i bob prentis gwblhau hyfforddiant Llên-ladrad ac A.I. yn ystod 3 mis cyntaf eu prentisiaeth.

Bydd modd i chi dderbyn hyfforddiant drwy un o'r ddau opsiwn canlynol:

- Uned e-ddysgu drwy eich e-bortffolio (OneFile yn unig)
  neu
- Cwrs 1 awr ar-lein

Bydd eich asesydd yn eich helpu i ddewis pa opsiwn sydd orau i chi.

## Hyfforddiant E-bortffolio

Bydd angen hyfforddiant cychwynnol arnoch er mwyn bod yn gyfforddus gyda defnyddio eich e-bortffolio. Mae angen i bob prentis gwblhau hyfforddiant e-bortffolio yn ystod 6 wythnos gyntaf eu prentisiaeth.

Bydd modd i chi dderbyn hyfforddiant drwy un o'r ddau opsiwn canlynol:

- Cyfres o fideos byr a chanllawiau ysgrifenedig
  neu

- Cwrs 1 awr ar-lein

Bydd eich asesydd yn helpu i ddewis pa opsiwn sydd orau i chi.

## Eich Cynllun Dysgu Unigol

O fewn y mis cyntaf o'ch prentisiaeth, byddech yn cyfarfod gyda'ch asesydd er mwyn rhoi cynllun dysgu unigol mewn lle. Bydd hwn yn gyfle i drafod y ffyrdd hoffech dderbyn wybodaeth a chymorth, eich arddull dysgu ac unrhyw anawsterau neu ofidion sydd gennych.

Bydd y ddogfen yn cael ei rhannu gyda chi drwy eich e-bortffolio a bydd gofyn i chi a'ch cyflogwr ei arwyddo. Bydd modd golygu'r ddogfen hon ar unrhyw bryd yn ystod eich rhaglen.

## HWB Sgiliau Hanfodol

Bydd eich asesydd yn rhoi gwybod i chi os oes angen i chi gwblhau cymwysterau Sgiliau Hanfodol fel rhan o'ch rhaglen. Mae hefyd modd i chi ddewis gwneud y cymwysterau hyn os oes diddordeb gennych chi i ddatblygu eich sgiliau ymhellach. Gofynnwch i'ch asesydd os hoffech ychwanegu'r cymwysterau hyn at eich fframwaith.

Os ydych am / angen cwblhau'r cymwysterau hyn, bydd aelod o staff o'r Hwb Sgiliau Hanfodol mewn cyswllt gyda chi o fewn 6 wythnos i'ch dyddiad cychwyn. Byddent yn medru esbonio'r holl broses a'r gofynion i chi ymhellach.

Maent yn arbenigwyr yn y maes, ac yn barod i'ch helpu ar unrhyw adeg - felly peidiwch â phoeni!

## Rhestr Wirio Anwytho

- ☐ WEST
- ☐ Prentis-laith
- ☐ Diogelu
- ☐ Prevent
- ☐ Llên-ladrad ac A.I
- ☐ Hyfforddiant e-bortffolio
- ☐ Eich Cynllun Dysgu Unigol
- ☐ HWB Sgiliau Hanfodol

### Nodiadau.....